| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 4 Medi 2013 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Cyng. Julian Thompson-Hill |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Pennaeth Cyllid ac Asedau |
| **Teitl:** | **1.** Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys (RhT) 2012/13 (Atodiad 1)<br>**2.** Adroddiad Diweddaru RhT 2013/14 (Atodiad 2) |

## 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae Adroddiad RhT Blynyddol 2012/13 (Atodiad 1) yn sôn am weithgarwch buddsoddi a benthyca'r Cyngor yn ystod 2012/13. Mae hefyd yn rhoi manylion am yr hinsawdd economaidd dros y cyfnod hwnnw ac yn dangos sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i Ddangosyddion Darbodus. Mae'r Adroddiad Diweddaru RhT (Atodiad 2) yn rhoi manylion gweithgarwch RhT y Cyngor yn ystod 2013/14.

1.2 Mae'r term 'rheoli trysorlys' yn cynnwys rheoli benthyca, buddsoddiadau a llif arian y cyngor. Mae oddeutu £0.5bn yn mynd drwy gyfrifon banc y cyngor bob blwyddyn. Benthyca dros ben y cyngor yw £133.26m gyda chyfradd llog flynyddol gyfartalog o 5.77% ac ar unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn, bydd gan y cyngor rhwng £20-£35m i'w fuddsoddi sy'n ennill 0.80% ar hyn o bryd.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Cytunodd y Cyngor ar 27 Hydref 2009 y byddai'r broses o lywodraethu'r RhT yn cael ei archwilio gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Rhan o'r rôl hon yw derbyn diweddariad ar weithgarwch y RhT ddwywaith y flwyddyn ac adolygu'r Adroddiad RhT Blynyddol amgaeedig ar gyfer 2012/13.

### 2.2 Rôl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

2.2.1 Bydd y tîm RhT yn darparu adroddiadau a hyfforddiant i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn unol â'r amserlen isod:

| Pwyllgor | Dyddiad | Teitl yr Adroddiad | Cynnwys yr Adroddiad |
|---|---|---|---|
| Llywodraethu Corfforaethol | Ionawr | Diweddariad RhT / Sesiwn Hyfforddiant | - Amgylchedd allanol<br>- Risgiau<br>- Gweithgaredd<br>- Rheolaeth<br>- Gweithgarwch yn y dyfodol |
| Llywodraethu Corfforaethol | Ionawr | Strategaeth RhT | - Polisi<br>- Strategaeth<br>- Dangosyddion darbodus |
| Y Cyngor | Chwefror | Strategaeth RhT | Fel yr uchod |
| Llywodraethu Corfforaethol | Medi | Diweddariad RhT | Fel y Diweddariad RhT uchod |
| Llywodraethu Corfforaethol | Medi | Adolygiad RhT | - Adolygu gweithgarwch RhT yn ystod y flwyddyn flaenorol<br>- Cyflawni swyddogaeth RhT |
| Cabinet | Medi | Adolygiad RhT | Fel yr uchod |

2.2.2 Mae RhT yn faes cymhleth sy'n cymryd amser i'w ddeall yn llawn a darperir diweddariadau rheolaidd. Credwyd felly fod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn fwy priodol na'r Cyngor i dderbyn y diweddariadau hyn fel y gellid neilltuo'r amser a'r ymrwymiad priodol i'r maes hwn.

2.2.3 Mae angen i'r Pwyllgor feddu ar lefel penodol o ddealltwriaeth yn y maes hwn a chyflawnir hyn drwy ddiweddariadau a sesiynau hyfforddiant rheolaidd.

2.2.4 Mae rôl y Pwyllgor yn cynnwys y canlynol:

- Deall y Dangosyddion Darbodus
- Deall effaith benthyca ar y sefyllfa refeniw
- Deall y cymhellion ehangach sy'n effeithio ar weithgarwch RhT y Cyngor
- Sicrhau bod y Cyngor bob amser yn gweithredu mewn modd darbodus mewn perthynas â'i weithgarwch RhT

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Dylai aelodau nodi perfformiad swyddogaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2012/13 a'i gydymffurfiad â'r Dangosyddion Darbodus gofynnol fel yr adroddwyd yn Adroddiad RhT Blynyddol 2012/13 (Atodiad 1).

3.2 Dylai aelodau nodi'r adroddiad diweddaru RhT (Atodiad 2).

## 4 Manylion yr adroddiad

4.1 Pwrpas yr Adroddiad RhT Blynyddol (Atodiad 1) yw:

- cyflwyno manylion ariannu cyfalaf, benthyca, ad-drefnu dyledion a throsglwyddiadau buddsoddi yn 2012/13;
- adrodd ar oblygiadau risg penderfyniadau a throsglwyddiadau trysorlys;
- cadarnhau cydymffurfiad gyda therfynau trysorlys a Dangosyddion Darbodus.

4.3 Mae'r adroddiad diweddaru RhT (Atodiad 2) yn rhoi manylion ar y canlynol:

- Amgylchedd economaidd allanol
- Risgiau
- Gweithgarwch
- Rheolaeth
- Gweithgarwch yn y dyfodol

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae penderfyniadau buddsoddi a benthyca da yn caniatáu cyfeirio adnoddau atodol ar wasanaethau eraill y Cyngor.

## 6 Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Amherthnasol.

## 7 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

7.1 Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â'i ymgynghorwyr trysorlys, Arlingclose Ltd.

## 8 Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

8.1 Mae Rheoli Trysorlys yn cynnwys risgiau cynhenid ond mae'r Cyngor yn monitro ac yn rheoli'r risgiau hyn fel yr amlinellir yn y prif adroddiad. Fodd bynnag, nid oed modd dileu'r risgiau hyn yn llwyr. Mae strategaeth a threfnau rheoli trysorlys y cyngor yn cael eu harchwilio yn flynyddol ac roedd yr adolygiad archwilio mewnol diweddaraf yn bositif ac ni chodwyd unrhyw faterion o bwys.

## 9 Pŵer i wneud y Penderfyniad

9.1 Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg) (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i God Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg ar Reoli Trysorlys sy'n pennu'r gofyniad ar y Cyngor i baratoi diweddariadau RhT rheolaidd ac adroddiad blynyddol ar weithgarwch trysorlys ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.